FFÔN/TEL: 01492 642800
FFACS/FAX: 01492 642801

FFORDD NEBO
LLANRWST
LL26 0SD

YSGOL DYFFRYN CONWY

Pennaeth/Head : Miss Elan Davies
e-bost/e-mail : cyff@dyffrynconwy.conwy.sch.uk
www.ysgoldyffrynconwy.org

Mawrth 2016

Annwyl Rhiant / Gwarcheidwad,

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu am drefniadau Profion Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol eich mab/merch Haf 2016. Hwn fydd trydydd flwyddyn y profion statudol i flwyddyn 7, 8 a 9. Eleni mae'n ofynnol i ni gynnal y **profion rhwng y 27ain o Ebrill a'r 10fed o Fai** 2016 – mae'n hanfodol bwysig felly fod eich plentyn yn bresennol yn yr ysgol yn ystod y cyfnod hyn.

Yn Ysgol Dyffryn Conwy bydd y profion yn digwydd ar y dyddiadau canlynol:

DYDDIAD	ASESIAD a BLWYDDYN
27/04/16	Rhifedd Blwyddyn 9
28/04/16	Rhifedd Blwyddyn 7
29/04/16	Rhifedd Blwyddyn 8
03/05/16	Darllen **Saesneg** Blwyddyn 7
04/05/16	Darllen **Cymraeg Iaith Gyntaf** Blwyddyn 7
05/05/16	Darllen **Cymraeg Iaith Gyntaf** Blwyddyn 8 a 9
06/05/16	Darllen **Saesneg** Blwyddyn 8 a 9

Mae'r profion yn cael eu marcio gan yr ysgol, fodd bynnag mae'r canlyniadau yn cael eu prosesu gan adran ddata Llywodraeth Cymru. Yn unol â trefniadau Haf 2013 - Haf 2015 bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi y canlyniadau ar ddiwedd tymor yr Haf 2016. Gobeithiwn y bydd y canlyniadau wedi cyrraedd mewn amser i ni anfon yr adroddiadau allan cyn diwedd tymor yr Haf. Byddwn yn eich hysbysu os nad yw hyn yn bosib ac yn rhyddhau yr adroddiadau dechrau y flwyddyn academaidd nesaf (Medi 2016). Mi fydd ein adroddiadau llawn i flwyddyn 7, 8 a 9 yn cael eu rhannu gyda chi yn ystod tymor yr Haf. Bydd cyfeiriadau yn yr adroddiadau hyn at sut mae eich plentyn yn cymhwyso ac yn datblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Cewch fwy o wybodaeth am y profion cenedlaethol a'r rhaglen llythrennedd a rhifedd cenedlaethol ar ein safwe. Byddwn yn diweddaru yr wybodaeth yn dilyn unrhyw wybodaeth newydd gan Lywodraeth Cymru.

Yn gywir

Miss Elan Davies
[Pennaeth]